

PENNOD 15: FFANFFER AGORIADOL

Salm 150

*Molwch yr Arglwydd... molwch ef am ei weithredoedd cadarn...
sain utgorn... Bydded i bopeth byw foliannu'r Arglwydd.*

*molwch ef â
Molwch yr Arglwydd.*

Atseinia adnodau agoriadol y Bedwerydd Efengyl fel ffanffer neu agorawd yn cyhoeddi dyfodiad brenin mawr. I rai, gwaith loan yw uchafbwynt y Testament Newydd wrth iddo ddangos Iesu yng ngolau profiad Cristnogol. Llwydda i uno cefndir Iddewig yr hanes gydag iaith crefyddol y byd Groegaid cyfoes. Mae pwrpas yr awdur i'w weld tua diwedd ei efengyl: "Y mae llawer o arwyddion eraill yn wir, a wnaeth Iesu yng ngŵydd ei ddisgyblion, nad ydynt wedi eu cofnodi yn y llyfr hwn. Ond y mae'r rhain wedi eu cofnodi er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi trwy gredu cael bywyd yn ei enw ef."¹²¹ Mae loan yn awyddus i dystiolaethu i'r gwirionedd sydd yn Iesu Grist: "daeth y Gair yn gnawd a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd; gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad."

I bob golwg, agora Marc ei efengyl gyda hanes gweinidogaeth loan Fedyddiwr ac Iesu'n dod ato i'w fedyddio fel cychwyn ei weinidogaeth yntau. Mae Mathew yn mynd â ni yn ôl at Abraham er mwyn cyflwyno i ni "Iesu Grist, Mab Dafydd, Mab Abraham." Addewid am loan Fedyddiwr yw agoriad Luc yn ogystal ond wedyn cawn ein harwain ganddo at "Adda mab Duw.Luc"¹²² I loan mae hyn i gyd yn gwbl annigonol. Mae'n ein harwain y tu hwnt i'r creu, at y Creawdwr ei hun. loan yw'r un sy'n cronico geiriau Iesu: "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyhych, cyn geni Abraham, yr wyf fi."¹²³

Nid ysgrifennu cofiant yw pwrpas loan ac oherwydd hynny, nid oes ganddo ddarlun o fywyd cynnar Iesu. Serch hynny, Rhagair loan yw pinacl y darlleniadau mewn gwasanaeth "Naw Llith a Charolau," a'r gynulleidfa yn sefyll ar eu traed ar ei gyfer mewn llawer i eglwys. Mae loan yn hoff o greu motifau fel sydd i'w cael mewn cerddoriaeth, geiriau ac ymadroddion sy'n cael eu ail-dweud drosodd a thro, megis 'goleuni a bywyd, gogoniant a gwirionedd.' Thema'r adnodau agoriadol yw y Logos (Y Gair) sydd yn gyn-fodolaeth ond sy'n dod mewn cnawd, gan gael ei wrthod gan y rhai sy'n gweld eu hunain yn Bobl Duw. Ond hwn sy'n datguddio Duw yn ei gyflawnder gan roi statws meibion¹²⁴ i bawb sy'n credu ynddo. Eglura fwriad yr efengyllydd yn ei eiriau agoriadol: "Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth popeth i fod trwyddo ef; hebdo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. Ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd."

Nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod loan yn seilio ei eiriau ar eiriau agoriadol Llyfr Genesis. Iddo ef, y Crist (Meseia) yw'r Logos, Gair creadigol Duw. Daw ei ddarlun o Iesu Grist i ni trwy ei saith ymadrodd MYFI YW: 'Myfi yw Bara'r Bywyd' (6.48), 'Myfi yw Goleuni'r Byd (8.12), 'Myfi yw'r Drws' (10.9; 'Myfi yw'r Bugail da. Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid (10,11), 'Myfi yw'r Atgyfodiad a'r Bywyd' (loan 11.25), 'Myfi yw'r Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd' (14.6), 'Myfi yw'r Wir Winwydden, a'm Tad yw'r Gwinllanwr' (15.1). Defnyddia'r ymadroddion hyn i ddatblygu syniadau ei agoriad. Mae'n bosibl mai bwriad loan yma yw cyfeirio meddwl ei ddarllenwyr at Lyfr yr Ecsodus 3.14: pan ofynnodd Moses am enw yr un sy'n ei gomisiynu i arwain ei bobl allan o'r Aifft, "dywedodd Duw wrtho, Ydyf yr hyn ydyf."¹²⁵

"Daeth y Gair yn gnawd." Daw ym mherson y dyn Iesu at ei bobl ei hun fel eu Meseia/Crist a'u Gwaredwr ond, wrth i'r hanes ddatblygu, mae ei bobl ei hun yn dewis newyn, tywyllwch, colledigaeth ac angau. Dywedir hynny'n glir hefyd yn yr agoriad: "Yr oedd yn y byd, a daeth y byd i fod trwyddo ef, ac nid adnabu'r byd ef. Daeth i'w gynefin ei hun, ac ni dderbyniodd ei bobl ei hun mohono. Ond cynifer ag a'i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy'n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant i Dduw, plant wedi eu geni nid o waed nac o ewyllys cnawd nac o ewyllys gŵr, ond o Dduw."¹²⁶

Yn ei stori *Gwlad y Deillion* mae H. G. Wells yn disgrifio dyn sy'n dod ar draws llwyth o ddeillion mewn man anghysbell. Maent yn gyfarwydd â bod yn ddall a dyna'i gyd, gan fyw eu bywyd mewn tywyllwch llwyr. Sonia'r dyn am ryfeddod y byd y tu hwnt i'r mynyddoedd mawrion. Ni all ei wrandawyr ddychmygu'r fath beth, gan wrthod credu yr un gair o'i eiddo. Iddynt hwy, yr unig obaith iddo i'w iddynt ei wneud yn ddall er mwyn iddo fod yn normal fel pob aelod o'r llwyth. Rhaid iddo ddianc yn ôl i'r byd arall y tu hwnt i'r mynyddoedd mawr. Ond, i'r Crist sy'n dod o'r Goleuni i fod yn Oleunir byd, nid oes dianc iddo ef. Nid yw am ddianc. Fe â ymlaen ar y ffordd â ordeiniwyd iddo gan Gariad Dwyfol. Wrth iddo ddod i mewn i'r tywyllwch, mae'r Goleuni yn cael ei ollwng yn rhydd yn y byd. Bwriad loan yw cyhoeddi bod Goleuni'r Byd wedi dod: "y Goleuni sy'n llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef."¹²⁷

Rhaid troi at Lythyr Cyntaf loan i gael crynodeb o amcanion y pedwar efengyllydd wrth iddynt adrodd hanes ymgnawdoliad Crist a'r hyn â ddigwyddodd wedyn.

Yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn yr ydym wedi ei glywed, yr hyn yr ydym wedi ei weld â'n llygaid, yr hyn yr edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylo, ynglŷn â gair y bywyd, dyna'r hyn yr ydym yn ei gyhoeddi. Amlygwyd y bywyd hwn; ac yr ydym wedi gweld, ac yr yr ydym yn tystiolaethu ac yn cyhoeddi i chwi y bywyd tragwyddol â oedd

Y Noson Honno: Myfyrdodau trwy'r adfent gan Thomas Ivor Rees

gyda'r Tad ac a amlygwyd i ni. Yr hyn yr ydym wedi ei weld a'i glywed, yr ydym yn ei gyhoeddi i chwi hefyd, er mwyn i chwithau gael cymundeb â ni. Ac yn wir, y mae ein cymundeb gyda'r Tad a chyda'i Fab ef Iesu Grist.... Hon yw y genadwri yr ydym wedi ei chlywed ganddo ef; ac yr ydym yn ei chyhoeddi i chwi: goleuni yw Duw ac nid oes ynddo ef ddim tywyllwch... os rhodiwn yn y goleuni, fel y mae ef yn y goleuni, y mae gennym gymundeb â'n gilydd, ac y mae gwaed Iesu, ei Fab ef, yn ein glanhau o bob pechod.¹²⁸

Pa ymateb sydd gennym i hyn oll? – ond uno yng nghân yr angylion:

*Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear, tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.
Dduw ein Tad, daeth dy Iesu Grist yn ddyn
i'n gwneud yn frodyr a chwiorydd iddo trwy ffydd.
Gwna ni'n un gydag ef, er mwyn i ni fwynhau dy gariad, ac,
fel y bu yntau'n byw, i ni hefyd fyw fel mewn gwasanaeth llawen fel dy blant;
er mwyn yr hwn a ddaeth i'r byd erom ni,
ac y sydd yn awr yn byw a theyrnasu gyda Thi a'r Ysbryd Glân,
un Duw yn oes oesoedd.*

Cwestiynau i'w hystyried neu i'w trafod

“Rhaid i Gristnogion ddysgu nad mater o fioleg yw'r ymgnawdoliad, ond o ymrwymiad, o benderfynu ble y maent yn sefyll.”¹²⁹ Beth yw'ch ymateb?

Beth yw ystyr y Nadolig i Gristnogion mewn oed? Sut mae hynny'n cyd-redeg â'r hyn sydd yn yr Efengylau?

Hiraethwn yn yr eglwysi am lawer o aelodau a'r nerth a ddaw yn sgil hynny – ond daw'r Nadolig â ni at faban mewn preseb, heb le mewn unrhyw lety. Beth sydd gan hynny i'w ddweud wrthym ni a'n heglwysi heddiw